WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 340A2018-19

Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn yn cynnwys Anne-Marie Harkin, David Thomas, Gillian Gillet, Katrina Febry a Stephen Lisle.

# Cynnwys

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 7

Adran 1: archwilio cyfrifon 8

Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais sawl mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio 8

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau 9

Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged arbedion ar gyfer 2016-17, ac y mae ar y trywydd iawn i wneud hynny yn 2017-18, ond mae heriau ariannol wedi ysgogi dull ymatebol o ymdrin ag arbedion, ac mae angen iddi ganolbwyntio ar arbedion mwy cynaliadwy yn y tymor hwy 10

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno gwelliannau clir i'w threfniadau llywodraethu eleni, ond mae'r cynnydd o ran rheoli risg yn gymysg. Mae heriau wedi codi yn gysylltiedig â chyllid, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnal a llywodraethu gwybodaeth. 12

Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd rhagddi â rhaglenni newid uchelgeisiol, ac yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae angen iddi weithio ar ei pherthynas â chomisiynwyr a gwneud defnydd mwy effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol 16

Atodiadau

Atodiad 1 - adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf 19

Atodiad 2 - y ffi archwilio 20

Atodiad 3 – risgiau’n gysylltiedig â barnau archwilio 21

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'm gwaith archwilio yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2017. Cwblheais y gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Ymddiriedolaeth i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

2 Yn fy ngwaith archwilio bûm yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sydd o flaen yr Ymddiriedolaeth, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a luniwyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Byddwn yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn cytuno â swyddogion ar eu cywirdeb ffeithiol cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld fy adroddiadau yn Atodiad 1.

3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynir gerbron y Pwyllgor Archwilio ar 6 Chwefror 2018. Cyflwynir yr adroddiad i'r Bwrdd yng nghyfarfod dilynol y Bwrdd, gan roi copi i bob aelod. Anogwn yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, byddwn yn darparu'r adroddiad i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau a ganlyn.

### Adran 1: archwilio cyfrifon

5 Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio. Roedd a wnelo'r mater pwysicaf o blith y rhain â Chronfa Risg Cymru.

6 Rwyf hefyd wedi casglu bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi mewn modd priodol a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol. Yn rhan o'm gwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.

7 Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i fantoli'r gyllideb yn y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17, felly cyflawnodd un o'i ddwy ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae Adran 2 o'r adroddiad hwn yn cynnwys mwy o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol.

### Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

8 Yr wyf wedi archwilio trefniadau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cynllunio a rheoli arian, ei threfniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i chynnydd o ran y materion i'w gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hyn er mwyn fy modloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei hadnoddau. Rwyf hefyd wedi cynnal adolygiad archwilio perfformiad o waith cynllunio i ryddhau cleifion yng Nghanolfan Ganser Felindre (CGF), ac wedi asesu defnydd yr

Ymddiriedolaeth o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Nodir fy nghasgliadau'n seiliedig ar y gwaith hwn isod.

## Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged arbedion ar gyfer 2016-17, ac y mae ar y trywydd iawn i wneud hynny yn 2017-18, ond mae heriau ariannol wedi ysgogi dull ymatebol o ymdrin ag arbedion, ac mae angen iddi ganolbwyntio ar arbedion mwy cynaliadwy yn y tymor hwy

9 Yn gyffredinol, roedd perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn rhagori ar gynllun arbedion 2016-17, er bod cyflawniad cynlluniau arbed unigol yn amrywio'n helaeth. Mae cynlluniau arbed yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu fwyfwy ar arbedion anghylchol, ac mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod potensial am ddiffyg ar ddiwedd 2017-18.

10 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi gryfhau'r modd y mae'n cynllunio arbedion yn y dyfodol er mwyn sicrhau ymagwedd fwy cynaliadwy, yn seiliedig ar foderneiddio gwasanaethau a chyflwyno model newydd ar gyfer contractau ariannol gyda chomisiynwyr.

11 Yn sgil pwysau ariannol cynyddol, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r modd y mae'n dysgu yn sgil llwyddiant a methiant cynlluniau arbed blaenorol, ac yn ystyried tynhau ei phrosesau ar gyfer craffu ar arbedion.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno gwelliannau clir i'w threfniadau llywodraethu eleni, ond mae'r cynnydd o ran rheoli risg yn gymysg. Mae heriau wedi codi yn gysylltiedig â chyllid, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnal a llywodraethu gwybodaeth.

12 **Cynllunio strategol** - Eleni, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth unwaith eto i sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig, er bod rhagdybiaethau cyllid heb eu bodloni a'r bwlch mewn cyllid yn sgil hynny wedi ysgogi cyfres o gamau i ail-drefnu'r amcanion yn ei chynllun yn ôl blaenoriaeth.

13 **Strwythur trefniadol** - Mae'r Ymddiriedolaeth yn eglurhau ac yn cryfhau ei threfniadau cynnal ar ôl adroddiad beirniadol ar drefniadau riportio digwyddiadau'n ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, ac efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth feddwl yn fwy strategol ynghylch sut i greu gwaith is-adrannol cydlynol.

14 **Sicrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau** - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau clir i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae rhaglen sicrwydd newydd y bwrdd yn gyfle allweddol i gryfhau'r fframwaith sicrwydd eto.

15 **Rheoli risg** - Cafwyd cynnydd cymysg wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion rheoli risg, ac ni chafodd rhai o'r heriau mwyaf sylweddol a brofodd yr Ymddiriedolaeth eleni eu disgrifio'n ddigon clir ar y gofrestr risg gorfforaethol.

16 **Llywodraethu gwybodaeth** - Mae rhai polisïau llywodraethu gwybodaeth yn cael eu hadolygu ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn paratoi am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd, nid yw'r

mater hwn yn ymddangos ar y gofrestr risg. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn dysgu gwersi yn dilyn ymchwiliad mewnol i achos difrifol o dorri rheolau data.

17 **Adrodd ar berfformiad** - Mae'r darlun o berfformiad o fewn yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae adroddiadau ar berfformiad yn parhau i esblygu er bod anawsterau o hyd wrth feincnodi a mesur canlyniadau.

18 **Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio** - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth fynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol ac mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynyddu ei drefniadau i graffu ar gynnydd tuag at weithredu argymhellion archwilio.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu rhaglenni newid uchelgeisiol ac yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae angen iddi weithio ar ei pherthynas â chomisiynwyr a gwneud defnydd mwy effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol

19 Yn y paragraffau isod, ceir crynodeb o'm gwaith i adolygu nifer o ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau.

20 **Trefniadau i gefnogi cyflwyno newid** -Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli rhai rhaglenni newid graddfa fawr sydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y sefydliad, ond a chanddynt y potensial i esgor ar fanteision sylweddol.

21 **Trefniadau i reoli'r gweithlu yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus** -Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r gweithlu yn gymysg; mae'n fore oes ar waith cynllunio'r gweithlu ac fe gafwyd anawsterau o ran recriwtio ac arfarniadau.

22 **Ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfniadau gwaith partneriaeth** - Mae problemau cyllid wedi amlygu gwendidau yn y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr, ac fe geir problemau o hyd o ran effeithiolrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol.

23 **TGCh a'r defnydd o dechnoleg** - Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth gwybodeg, ac fe gafwyd oedi wrth fabwysiadu dull o ymdrin â gwybodeg ar raddfa'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae rhaglen amlinellol strategol ar gyfer rhagoriaeth ddigidol yn gonglfaen allweddol er mwyn cryfhau gwaith i fodloni gofynion lleol a chenedlaethol.

24 **Adolygiad o'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion -** Drwy fy ngwaith ar gynllunio i ryddhau cleifion cesglais fod Canolfan Ganser Felindre yn cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion er bod data i fonitro ac adrodd ar berfformiad ar raddfa'r Ganolfan Ganser a'r Ymddiriedolaeth yn brin.

25 **NFI** - Drwy fy ngwaith ar yr NFI, canfûm nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI i ganfod twyll.

26 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

# Adroddiad manwl

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

27 Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau bwrdd yr Ymddiriedolaeth nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Tachwedd 2017.

28 Yr wyf yn cyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004[1]. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli;

c) a'm bodloni fy hun fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

29 Mewn perthynas ag (c), rwyf wedi cael sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth;
- gwaith a wnaed yn rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf ar gyfer Ymddiriedolaeth, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
- archwiliadau perfformiad a gynhaliwyd yn yr Ymddiriedolaeth;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- gwaith arall, fel ymarferion paru data yn rhan o'r NFI.

30 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

31 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:

- adran 1: archwilio cyfrifon
- adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

32 Yn Atodiad 2 dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.

33 I gloi, nodir yn Atodiad 3 y risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2017, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

[1] Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

# Adran 1: archwilio cyfrifon

34 Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.

35 Wrth ystyried datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, y mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:

- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r adroddiad ar daliadau wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol fel arfer) yn gyson â'r datganiadau; a
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.

36 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

## Rhoddais farn ddiamod ar ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2016-17. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais rai materion i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio

### Bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi mewn modd priodol, a'u bod yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

37 Darparwyd y cyfrifon drafft inni ar amser ac ar y dyddiad cytunedig, ac fe gawsom hefyd bapurau gwaith o ansawdd da ar y cyfan.

38 Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth ar 30 Mai 2017.Roedd a wnelo'r mater pwysicaf o blith y rhain â Chronfa Risg Cymru, ac rwyf wedi cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella yn gysylltiedig a'r rhain ac eitemau eraill llai pwysig. Ceir crynodeb yn Nangosyn 1 o'r prif fater a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Dangosyn 1: mater a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r dangosyn yn cynnwys crynodeb o'r prif fater a nodwyd, ynghyd â sylwadau.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Nodwyd bod dadweindo'r disgownt ar achosion setliad strwythuredig yn wall o bwys. | Roedd y datganiadau ariannol a gyflwynwyd i'w harchwilio yn cynnwys cyfrifiad o £20,266,000 i gynrychioli dadweindio achosion setliad strwythuredig. Roedd hwn yn gyfrifiad cymhleth oherwydd y newid yn y gyfradd ddisgownt o'r positif i'r negyddol. Wrth brofi, gwelsom fod hyn wedi'i gyfrifo'n anghywir ar gyfer achosion y fynegai prisiau adwerthu (RPI) ac wedi arwain at wallau o bwys. Diwygiwyd y ffigur drwy dynnu £19,750,000 a gadael £516,000. Dylid nodi na chafodd yr addasiad hwn unrhyw effaith ar lefel y darpariaethau cyfrifyddu, nac unrhyw effaith ychwaith ar y warged diwedd blwyddyn a adroddwyd gan yr Ymddiriedolaeth. |

39 Yn rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais hefyd adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2017, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

40 Cwblhawyd fy archwiliad ar wahân o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol a rhoddwyd barn ddiamod.

### Wrth gyflawni fy ngwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth

41 Bûm yn adolygu rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth a ystyriwyd yn berthnasol gennyf i'r archwiliad, i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau'n gysylltiedig â chamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni roddais ystyriaeth iddynt er mwyn cyfleu barn ynghylch effeithiolrwydd wrth weithredu rheolaethau mewnol. Ni chefais hyd i unrhyw ddiffygion o bwys yn rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

# Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

42 Y mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Cyflawnais amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn yr Ymddiriedolaeth dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:

- adolygu cynlluniau a chyflawniad yr Ymddiriedolaeth o ran arbedion ariannol, a'r modd y cyfrannodd hynny at fantoli'r cyfrifon;

- asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig y llynedd; a
- gwaith ar ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, gwaith archwilio perfformiad ar drefniadau cynllunio i ryddhau cleifion yng Nghanolfan Ganser Felindre, ac asesiad o'r defnydd o barau data yn rhan o'r NFI.

43 Ceir crynodeb o brif ganfyddiadau'r gwaith y cyfeirir ato uchod o dan y penawdau canlynol.

## Cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth ei tharged arbedion ar gyfer 2016-17, ac y mae ar y trywydd iawn i wneud hynny yn 2017-18, ond mae heriau ariannol wedi ysgogi dull ymatebol o ymdrin ag arbedion, ac mae angen iddi ganolbwyntio ar arbedion mwy cynaliadwy yn y tymor hwy

44 Yn ogystal â gwneud sylwadau am sefyllfa ariannol gyffredinol yr Ymddiriedolaeth, yn rhan o'm gwaith asesu strwythuredig yn 2017, ystyriais y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r cyfrifon a chreu cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Ceir crynodeb isod o'm prif ganfyddiadau.

### Perfformiad ariannol - Roedd cyflawniad yr Ymddiriedolaeth yn rhagori ar ei chynllun arbedion cyffredinol ar gyfer 2016-17, er bod cyflawniad cynlluniau arbed unigol yn amrywio'n helaeth. Mae cynlluniau arbed yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu fwyfwy ar arbedion anghylchol, ac mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod potensial am ddiffyg diwedd blwyddyn yn 2017-18

45 Deuthum i'r casgliad uchod drwy fy ngwaith ar gynllunio arbedion ariannol am y rhesymau a ganlyn:

- yn ystod 2016-17, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i arbed £1.788 miliwn yn erbyn yr £1.436 miliwn a gynlluniwyd.
- yr oedd llwyddiant cynlluniau arbed unigol yn amrywio'n helaeth. Mae hyn yn awgrymu bod lle eto i wella'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio ac yn cyflawni arbedion.
- roedd 29% o'r holl arbedion a gyflawnwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn 2016-17 yn arbedion anghylchol. Mae'r cynllun arbedion ar gyfer 2017-18 yn cynyddu dibyniaeth yr Ymddiriedolaeth ar arbedion anghylchol[2].
- yn ei gyfarfod Bwrdd ym mis Medi 2017, adroddodd yr Ymddiriedolaeth ddiffyg diwedd blwyddyn posibl o £0.54 miliwn ar gyfer 2017-18. Y prif ffactor a oedd yn cyfrannu at y sefyllfa hon oedd y ffaith nad oedd rhagdybiaethau ariannu allweddol yr Ymddiriedolaeth yn ei Chynllun Tymor Canolig Integredig wedi'u gwireddu, gan greu ansicrwydd a chymhlethdod ynghylch y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Daeth y mater

[2] Mae cynllun arbedion yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 yn cynnwys cyfanswm o £450,000 mewn arbedion anghylchol cynlluniedig, sef cynnydd o £105,000 o gymharu â chyfanswm 2016-17 o £345,000.

yn destun cyflafareddu gan Lywodraeth Cymru, ac ni fu'r Ymddiriedolaeth yn llwyddiannus (gweler paragraff 46 am fwy o fanylion).

Cynllunio a chyflawni arbedion ariannol - Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod angen iddi gryfhau'r modd y mae'n cynllunio arbedion yn y dyfodol drwy foderneiddio gwasanaethau a chyflwyno model newydd ar gyfer contractau ariannol â chomisiynwyr.

46 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch cynllunio a chyflawni arbedion am y rhesymau canlynol:

- yr oedd rhai gwahaniaethau amlwg rhwng y cynlluniau arbed a nodwyd yn y CTCI a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru a'r cynlluniau a nodwyd yng nghynllun arbedion terfynol 2016-17. Mae maint y newidiadau i nifer a gwerth cynlluniau arbed yng Nghanolfan Ganser Felindre yn adlewyrchu natur heriol y gwaith o ganfod arbedion cyflawnadwy a chylchol yng Nghanolfan Ganser Felindre.
- wrth ddisgwyl canlyniad yr achos cyflafareddu, yr oedd ansicrwydd o fewn yr Ymddiriedolaeth ynghylch lefel yr arbedion y byddai'n ofynnol iddi eu sicrhau. Roedd hyn yn ysgogi dull ymatebol o gynllunio a chyflawni arbedion.
- ymddengys fod mwyafrif y cynlluniau arbed yn canolbwyntio ar reoli costau gweithredol, gan ddibynnu fwyfwy ar arbedion anghylchol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod bod yr ymagwedd drafodaethol yn anghynaliadwy ac yn ymroi i ganolbwyntio ar ganfod arbedion mwy cynaliadwy a gweddnewidiol drwy raglenni gwaith amrywiol.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu cyflwyno model newydd ar gyfer contractau ariannol er mwyn creu dadansoddiad cywirach o gostau a gwariant yn gysylltiedig â gweithgarwch, a hefyd er mwyn creu'r potensial am fwy o feincnodi â chyrff cymharol.

Monitro arbedion ariannol - Yn sgil pwysau ariannol cynyddol, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wella'r modd y mae'n dysgu yn sgil llwyddiant a methiant cynlluniau arbed blaenorol, ac yn ystyried tynhau ei phrosesau ar gyfer craffu ar arbedion

47 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch monitro arbedion am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi cynnal gwerthusiad ffurfiol o lwyddiannau a chyfyngiadau cynlluniau arbed 2016-17. Prin yw'r dystiolaeth felly i awgrymu bod yr Ymddiriedolaeth yn dysgu yn sgil profiadau cynlluniau arbed blaenorol i ddatblygu cynlluniau mwy effeithiol yn y dyfodol.
- darperir gwybodaeth am berfformiad arbedion yn rheolaidd i'r Pwyllgor Cynllunio a Pherfformiad ond nid yw lefel y manylder yn hyrwyddo craffu a herio manwl.

### Cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion blaenorol ynghylch Cynllunio a rheoli ariannol

48 Yn fy Asesiad Strwythuredig 2016, argymhellais y dylai'r Ymddiriedolaeth adolygu cynnwys yr adroddiadau cyllid yr oedd yn eu cyflwyno gerbron y Bwrdd. Dywedais y dylid ystyried yn yr adolygiad a fyddai'r adroddiad yn elwa ar wybodaeth gryfach wrth fonitro mantolenni, crynodeb o risgiau a'u heffaith bosibl ar orwariant yn gysylltiedig â dadansoddiad o'r problemau sylfaenol. Wrth lunio'r adroddiad, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gweithredu'r argymhelliad hwnnw.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno gwelliannau clir i'w threfniadau llywodraethu eleni, ond mae'r cynnydd o ran rheoli risg yn gymysg. Mae heriau wedi codi yn gysylltiedig â chyllid, ac mae angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnal a llywodraethu gwybodaeth.

49 Yn rhan o'm gwaith ar yr Asesiad Strwythuredig bûm yn asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y Bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion mewn asesiadau strwythuredig blaenorol. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

### Cynllunio strategol - Eleni llwyddodd yr Ymddiriedolaeth unwaith eto i sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ei Chynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) er bod rhagdybiaethau cyllid heb eu bodloni a'r bwlch ariannu yn sgil hynny wedi ysgogi cyfres o gamau i ail-drefnu'r amcanion yn ei chynllun yn ôl blaenoriaeth.

50 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch cynllunio strategol am y rhesymau canlynol:

- siaradodd yr Aelodau Annibynnol yn gadarnhaol ynghylch y broses o gynhyrchu'r CTCI. Disgrifiwyd proses o graffu iterus, lle byddai Aelodau Annibynnol yn cael sawl cyfle i wneud sylwadau ynghylch cynnwys y cynllun drafft.
- ymddengys fod capasiti a gallu cynllunio'r Ymddiriedolaeth yn gwella. Mae'r ymagwedd at gynllunio bellach yn llai dibynnol ar y tîm cynllunio corfforaethol, gyda mwy o ymglymiad gan benaethiaid gwasanaeth is-adrannol, ynghyd â staff Cyllid a'r Gweithlu a Datblygu Trefniadol.
- cymeradwywyd y CTCI o 2017-18 hyd 2019-20 gan Lywodraeth Cymru, ond roedd yn cynnwys rhagdybiaethau y byddai cyllid yr Ymddiriedolaeth yn cynyddu yn gysylltiedig â phedair eitem. Cytunodd y comisiynwyr ar gynnydd yn gysylltiedig â dwy eitem, ond aeth y penderfyniad ynghylch y ddwy eitem arall yn destun cyflafareddu o fewn Llywodraeth Cymru. Dyfarnodd Llywodraeth Cymru o blaid y comisiynwyr, a adawodd fwlch ariannu o £1.345 miliwn yng nghynllun yr Ymddiriedolaeth.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru effaith y bwlch ariannu, ac wedi gwneud gwaith cynllunio senarios i ystyried pa weithgareddau y mae wedi'u cynllunio ar gyfer eleni y gellid bod angen eu gohirio.
- mae problemau ariannu o fewn y rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser (TGC) wedi cymhlethu'r pwysau ariannol ar yr Ymddiriedolaeth. Tra'n disgwyl penderfyniad

ynghylch parhad cyllid gan Lywodraeth Cymru, penderfynodd y Bwrdd dalu costau parhaus y rhaglen TGC. Roedd ansicrwydd ynghylch pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ynghylch cyllid pellach yn ei gwneud hi'n anodd recriwtio a chadw staff o fewn y rhaglen, ac yn cymhlethu gwaith cynllunio o fewn TGC. Yn ystod proses glirio ein hadroddiad, penderfynodd Llywodraeth Cymru ryddhau mwy o gyllid ar gyfer y rhaglen TGC.

### Strwythur trefniadol - Mae'r Ymddiriedolaeth yn eglurhau ac yn cryfhau ei threfniadau cynnal ar ôl adroddiad beirniadol ar drefniadau riportio digwyddiadau'n ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (GGGC), ac efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth feddwl yn fwy strategol ynghylch sut i greu gwaith is-adrannol cydlynol

51 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch y strwythur trefniadol am y rhesymau canlynol:

- Mae cyfweliadau ag Aelodau Annibynnol yn awgrymu diffyg eglurder parhaus ynghylch llywodraethu GGGC. Atgyfnerthwyd y diffyg eglurder mewn adroddiad gan Uned Gyflawni GIG Cymru mewn perthynas ag adrodd a rheoli digwyddiadau difrifol rhwng GGGC, yr Ymddiriedolaeth a gweddill GIG Cymru. Roedd adroddiad Archwilio Mewnol a luniwyd eleni hefyd yn cynnwys sylwadau ynghylch natur gymhleth trefniadau llywodraethu GGGC. Mae fy adroddiad ar Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru yn cynnwys manylion pellach ynghylch llywodraethu GGGC.
- mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn cymryd camau i wella'r trefniadau llywodraethu yn gysylltiedig â GGGC. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi drafftio cyfres o ofynion sy'n anelu i egluro a chryfhau trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn gysylltiedig â GGGC.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau pellach eleni i hyrwyddo cydweithio rhwng ei his-adrannau. Fodd bynnag, datgelai cyfweliadau fy nhîm archwilio farn gymysg ynghylch maint y cynnydd.

### Sicrwydd ac effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd camau clir i wella effeithiolrwydd y Bwrdd a'i bwyllgorau, ac mae rhaglen sicrwydd newydd y bwrdd yn gyfle allweddol i gryfhau'r fframwaith sicrwydd eto

52 Deuthum i'r casgliad uchod am y rhesymau canlynol:

- ceir bellach gydweithio agosach rhwng y tîm llywodraethu corfforaethol a chadeiryddion pwyllgorau. Yn ogystal â hynny, mae adroddiadau safonedig newydd ar y prif bwyntiau i'w cyflwyno gerbron pwyllgorau bellach yn ychwanegu gwerth at ddiweddariadau cadeiryddion pwyllgor i'r Bwrdd.
- nodwyd yn arsylwadau fy nhîm eleni fod cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau yn parhau i fod yn amgylcheddau cadarnhaol. Gwelsom rai enghreifftiau penodol o drafodaethau hynod effeithiol a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- mae gwelliannau ar y gweill i'r Is-bwyllgor Dysgu Sefydliadol er bod gwelliannau i'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu wedi'u gohirio wedi i ddau swyddog allweddol ymadael â'r Ymddiriedolaeth.

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi rheoli trosiant Aelodau Annibynnol yn effeithiol. Ymsefydlodd yr aelodau newydd yn gyflym, ac maent eisoes yn cael effaith gadarnhaol.
- newydd ddechrau y mae rhaglen sicrwydd y bwrdd. Y nod yw datblygu fframwaith sicrwydd bwrdd wedi'i fapio'n llawn, gan ddechrau ag amcanion corfforaethol yr Ymddiriedolaeth, nodi'r risgiau i'r amcanion hynny, a phenderfynu wedyn pa reolaethau fyddai eu hangen i liniaru'r risgiau hynny. Mae angen codi ymwybyddiaeth ynghylch y rhaglen ymhlith Aelodau Annibynnol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn perchnogi'r gwaith pwysig hwn.

### Rheoli risg - Cafwyd cynnydd cymysg wrth fynd i'r afael â'm hargymhellion rheoli risg, ac ni chafodd rhai o'r heriau mwyaf sylweddol a brofodd yr Ymddiriedolaeth eleni eu disgrifio'n ddigon clir ar y gofrestr risg gorfforaethol

53 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch rheoli risg am y rhesymau canlynol:

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymryd sawl cam dros y blynyddoedd diwethaf i gryfhau ei dull o reoli risg. Mae trafodaethau ynghylch risg mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau bellach yn fwy deallus a phwrpasol. Serch hynny, bu'r cynnydd wrth weithredu fy argymhellion ynghylch rheoli risg yn gymysg.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ddatblygu ei hymagwedd at archwaeth risg ac mewn adroddiad Archwilio Mewnol dyfarnwyd sgôr 'sicrwydd rhesymol' ar gyfer rheoli risg eleni.
- er fy mod yn cydnabod bod y dull o drafod risg o fewn yr Ymddiriedolaeth wedi gwella dros amryw o flynyddoedd, gallai'r gofrestr risg gorfforaethol fod wedi cynnwys disgrifiadau mwy eglur o'r prif heriau sydd wedi codi eleni. Mae problemau ariannu o fewn y rhaglen TGC, anawsterau wrth recriwtio meddygon iau a phroblemau llywodraethu yn gysylltiedig â GGGC ymhlith enghreifftiau o'r heriau hyn. Mae rhaglen sicrwydd y bwrdd bellach yn cynnig cyfle allweddol i ystyried y camau nesaf ar gyfer gwella trefniadau rheoli risg.

### Llywodraethu gwybodaeth - Mae rhai polisïau llywodraethu gwybodaeth yn cael eu hadolygu ac er bod yr Ymddiriedolaeth yn paratoi am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol newydd, nid yw'r mater hwn yn ymddangos ar y gofrestr risg. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn dysgu gwersi yn dilyn ymchwiliad mewnol i achos difrifol o dorri rheolau data

54 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch llywodraethu gwybodaeth am y rhesymau canlynol:

- Canfûm fod gan yr Ymddiriedolaeth bolisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth ar waith er bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod rhai polisïau allweddol eraill wedi dyddio ac yn cael eu hadolygu.
- mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg a Rheoli Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ond nid yw gwarcheidwaid Caldicott yr Ymddiriedolaeth yn ei fynychu'n rheolaidd.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn monitro ei chydymffurfiaeth â gofynion Caldicott ond nid yw'n cadw cofnod o brotocolau rhannu gwybodaeth na chytundebau datgelu data.

- mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu grŵp i weithredu ar sail gofynion y RhDDC. O ystyried y risgiau o ran cyllid ac enw da yn gysylltiedig â pheidio â chydymffurfio â'r RhDDC, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried cynnwys y mater hwn ar ei chofrestr risg.
- adroddodd yr Ymddiriedolaeth dri achos honedig o dorri rheolau data wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) eleni. Ar adeg ein harchwiliad, roedd SCG wedi cau dau o'r achosion, ond yr oedd yn dal i benderfynu ynghylch y trydydd, a oedd yn gysylltiedig ag ymosodiad seiber ar wasanaeth diogelu ymbelydredd. Caewyd y trydydd digwyddiad gan y SCG yn ystod ein proses glirio, ac mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn gweithredu argymhellion ar gyfer gwella yn dilyn ymchwiliad mewnol i'r mater hwn.

### Adrodd ar berfformiad - Mae'r darlun o berfformiad o fewn yr Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae adroddiadau ar berfformiad yn parhau i esblygu er bod anawsterau o hyd wrth feincnodi a mesur canlyniadau

55 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch adroddiadau ar berfformiad am y rhesymau canlynol:

- i raddau helaeth, mae'r lefelau perfformiad a ddisgrifir yn adroddiadau perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn dal i fod yn gadarnhaol;
- mae ymagwedd yr Ymddiriedolaeth at adroddiadau perfformiad wedi parhau i esblygu eleni, er ei bod hi'n bosib bod ymadawiad yr aelod o staff sy'n arwain adolygiad o fframwaith rheoli perfformiad yr Ymddiriedolaeth wedi cyfyngu ar gynnydd pellach; ac
- mae'r Ymddiriedolaeth yn dal yn ei chael hi'n anodd ei meincnodi ei hun yn erbyn cyrff cymharol, ac i ddatblygu dulliau ystyrlon o fesur canlyniadau.

### Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion archwilio - Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd cyson wrth fynd i'r afael â materion o asesiadau strwythuredig blaenorol ac mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynyddu ei drefniadau i graffu ar gynnydd tuag at weithredu argymhellion archwilio

56 Yn rhan o'm gwaith asesu strwythuredig eleni bûm yn adolygu cynnydd yr Ymddiriedolaeth wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig 2016. Ar y cyfan, deuthum i'r casgliad bod yr Ymddiriedolaeth wedi gorffen gweithredu 8 o 12 o argymhellion o 2016 (er bod problemau o hyd yn gysylltiedig â dau o'r argymhellion). Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd rhagddi i weithredu tri argymhelliad arall ac wedi penderfynu peidio gweithredu un o'r argymhellion.

57 Yn Asesiad Strwythuredig 2016, argymhellais y dylai'r Pwyllgor Archwilio gryfhau ei drefniadau i graffu ar ymatebion rheolwyr i adroddiadau archwilio, er mwyn sicrhau bod y camau a gynigir yn berthnasol, ac y byddant yn datrys y problemau y cyfeirir atynt yn yr argymhellion. Eleni, mae'r pwyllgor wedi cynyddu ei drefniadau i graffu ar gynnydd tuag at weithredu argymhellion archwilio. Y mae wedi cynyddu lefel ei ffocws ar y Cynllun Gweithredu Archwilio ac erbyn hyn yn canolbwyntio'n unig i bob pwrpas ar argymhellion hwyr neu argymhellion y mae peryg iddynt fod yn hwyr. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi defnyddio Archwilwyr Mewnol i adolygu cynnwys y cynlluniau gweithredu archwilio, ac mae cadeirydd newydd y Pwyllgor Archwilio yn canolbwyntio ar herio cynnydd tuag at roi'r cynlluniau hynny ar waith.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn datblygu rhaglenni newid uchelgeisiol ac yn cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, ond mae angen iddi weithio ar ei pherthynas â chomisiynwyr a gwneud defnydd mwy effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol

58 Drwy fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig, adolygwyd sawl ffactor sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, yn benodol y trefniadau i gefnogi cyflawni newid, rheoli'r gweithlu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth, a'r defnydd o TGCh a thechnoleg. Bûm hefyd yn adolygu trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion yng Nghanolfan Ganser Felindre, a defnydd yr Ymddiriedolaeth o'r NFI. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod.

### Trefniadau i gefnogi cyflwyno newid -Mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli rhai rhaglenni newid graddfa fawr sydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y sefydliad, ond a chanddynt y potensial i esgor ar fanteision sylweddol

59 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch trefniadau gefnogi cyflawni newid am y rhesymau canlynol:

- sefydliad cymharol fach yw'r Ymddiriedolaeth ac mae'n mynd drwy raglenni newid uchelgeisiol. Mae maint y newid yn rhoi pwysau ychwanegol ar staff ond hefyd yn creu cyfle i staff eu herio eu hunain ac ysgogi newid cadarnhaol hirdymor.
- bu'r cynnydd yn arafach na'r disgwyl wrth weithredu argymhelliad o asesiad strwythuredig 2015, sef cynnal asesiad risg i weld a yw capasiti arweinwyr lefel uwch yr Ymddiriedolaeth yn ddigonol i gyflawni newid ar raddfa fawr.
- bu'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn ffocws pwysig i'r Ymddiriedolaeth eleni, ac er ei bod wedi cymryd sawl cam allweddol ymlaen (fel sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer yr ysbyty newydd), y mae hefyd wedi dechrau profi heriau'n o ran cyllid, yr amserlen ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- yn ogystal â'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Canser, mae'r Ymddiriedolaeth wedi lansio rhaglen newid uchelgeisiol yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru o'r enw Cadwyn Cyflenwi Gwaed 2020, ac mae'n ceisio ysgogi newid diwylliannol drwy ei strategaeth datblygu sefydliadol, Adeiladu Rhagoriaeth. Mae gwerthusiad o Adeiladu Rhagoriaeth yn awgrymu bod angen cyflymu effaith y strategaeth a'i gwneud yn fwy gweladwy.

### Trefniadau i reoli'r gweithlu yn effeithlon, yn effeithiol ac mewn modd darbodus -Mae perfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r gweithlu yn gymysg; mae'n fore oes ar waith cynllunio'r gweithlu ac fe gafwyd anawsterau o ran recriwtio ac arfarniadau

60 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch trefniadau i reoli'r gweithlu am y rhesymau canlynol:

- mae asesiadau strwythuredig yn dyddio'n ôl i 2014 wedi amlygu bod lle i gryfhau trefniadau cynllunio'r gweithlu o fewn yr Ymddiriedolaeth. Nid yw modelu anghenion hirdymor y gweithlu yn gyffredin o fewn yr Ymddiriedolaeth eto.
- mae data ar fetrigau'r gweithlu yn awgrymu bod Felindre, i raddau cymharol, yn gwario llai na chyrff iechyd eraill ar staff asiantaeth, a bod yr Ymddiriedolaeth yn perfformio'n

gymharol dda o ran yr amser a gymerir i recriwtio staff. Er bod cyfraddau absenoldeb salwch yn is na chyfartaledd GIG Cymru, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru.

- mae ffocws parhaus rheolwyr ar adolygiadau perfformiad a datblygiad wedi cyfrannu at welliant cyffredinol yn y cyfraddau cwblhau. Fodd bynnag, maer Ymddiriedolaeth yn parhau i berfformio'n is na'i darged o ran y nifer o adolygiadau a gwblheir.
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi profi cymhlethdodau wrth recriwtio eleni. Mae anawsterau wrth recriwtio meddygon iau wedi arwain at gynlluniau i ddiwygio'r model clinigol yng Nghanolfan Ganser Felindre. Cafwyd problemau wrth recriwtio staff ar gyfer y rhaglen TGC, ac wrth recriwtio fferyllwyr a gwyddonwyr yng Nghanolfan Ganser Felindre a Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Ymgysylltu â rhanddeiliaid a threfniadau gwaith partneriaeth - Mae problemau cyllid wedi amlygu gwendidau yn y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i chomisiynwyr, ac fe geir problemau o hyd o ran effeithiolrwydd y Fforwm Partneriaeth Lleol

61 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwaith partneriaeth am y rhesymau canlynol:

- mae'r achos cyflafareddu a'i broblemau ariannu cysylltiedig wedi amlygu gwendidau yn y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd sy'n ei chomisiynu; ac
- er bod yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu cylch gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol, gwelais problemau'r Fforwm yn parhau o ran diffyg presenoldeb ac ymgysylltu.

TGCh a'r defnydd o dechnoleg - Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth gwybodeg, ac fe gafwyd oedi wrth fabwysiadu dull o ymdrin â gwybodeg ar raddfa'r Ymddiriedolaeth gyfan. Mae rhaglen amlinellol strategol ar gyfer rhagoriaeth ddigidol yn gonglfaen allweddol er mwyn cryfhau gwaith i fodloni gofynion lleol a chenedlaethol

62 Deuthum i'r casgliad uchod ynghylch TGCh a'r defnydd o dechnoleg am y rhesymau canlynol:

- ni chafwyd srategaeth ddigidol na strategaeth wybodeg gyfredol o fewn yr Ymddiriedolaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, cafodd rhaglen amlinellol strategol ar gyfer Rhagoriaeth Ddigidol mewn Gwybodeg ei chymeradwyo gan y Bwrdd eleni.
- mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu strategaeth ddigidol a chynnal adolygiad o wybodeg drwy'r holl sefydliad er mwyn canfod meysydd lle gellir mabwysiadu ymagwedd gorfforaethol at wybodeg.

Adolygiad o'r trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion - Mae Canolfan Ganser Felindre yn cymryd camau i atgyfnerthu trefniadau ar gyfer cynllunio i ryddhau cleifion, er bod data i fonitro ac adrodd ar berfformiad ar raddfa'r Ganolfan Ganser a'r Ymddiriedolaeth yn brin.

63 Cafodd fy adroddiad ar gynllunio i ryddhau cleifion ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2017, a chwblhaodd y Bwrdd Iechyd yr ymateb rheoli ym mis Rhagfyr 2017.

Ceir pedwar argymhelliad i'w gweithredu gan yr Ymddiriedolaeth. Dyma oedd fy mhrif gasgliadau:

- Mae Canolfan Ganser Felindre yn cymryd camau i wella'r broses o gynllunio i ryddhau cleifion, ac mae polisïau a llwybrau rhyddhau yng nghyfnod cynnar eu datblygiad;
- mae staff y Ganolfan Ganser yn datblygu prosesau ac adnoddau sy'n cefnogi proses gynllunio effeithiol i ryddhau cleifion; ac
- nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddigon o wybodaeth i fonitro trefniadau rhyddhau cleifion er bod trefniadau atebolrwydd clir wedi'u nodi yn y polisi drafft ar ryddhau cleifion.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) - Nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI i ganfod twyll.

64 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r NFI sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.

65 Cyflwynodd cyrff sy'n cymryd rhan yn y fenter ddata i ymarfer paru data cyfredol yr NFI ym mis Hydref 2016. Rhyddhawyd y canlyniadau i'r cyrff hynny ym mis Ionawr 2017.

66 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn yr NFI, ac mae'n orfodol iddi wneud hynny. Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth 4,411 o barau data drwy raglen we'r NFI. Mae'r data a gaiff eu paru yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu.

67 Er na ddisgwylir i sefydliadau adolygu'r holl barau data, mae rhai o'r parau cyfatebol wedi'u pennu'n 'barau a argymhellir'. Ystyrir bod y parau hyn yn rhai risg uchel, felly argymhellir y dylid eu hadolygu'n flynyddol. Roedd y parau data a dderbyniwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys 419 o barau a argymhellwyd.

68 Yn ôl rhaglen we'r NFI, sy'n cofnodi canfyddiadau adolygiad yr Ymddiriedolaeth o'i pharau data, nad oedd yr Ymddiriedolaeth ond wedi adolygu un pâr o data ar 20 Tachwedd 2017. Mae'r ffaith nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud defnydd effeithiol o'r NFI yn rhan o'i threfniadau i ganfod ac atal twyll yn destun pryder mawr. Mae'r Ymddiriedolaeth i fod i ddarparu data ar gyfer yr ymarfer NFI nesaf (NFI 2018-19) ym mis Hydref 2018. Dylai'r Ymddiriedolaeth roi cynllun gweithredu ar waith er mwyn sicrhau bod y parau y mae'n eu derbyn drwy'r ymarfer hwnnw yn cael eu hadolygu, ac yr ymchwilir yn brydlon iddynt, lle bo angen.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Dangosyn 2: Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2017.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol | Mai 2017 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2017 |
| Llythyr Rheolwyr | Gorffennaf 2017 |
| Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol Cronfeydd a Ddelir mewn Ymddiriedaeth | Tachwedd 2017 |
| Barn ar Ddatganiadau Ariannol Elusennol y Cronfeydd a Ddelir mewn Ymddiriedaeth | Tachwedd 2017 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Adolygiad o Gynlluniau i Ryddhau Cleifion | Tachwedd 2017 |
| Asesiad Strwythuredig 2017 | Ionawr 2017 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2017 | Mawrth 2017 |

Dangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad yn dal ar y gweill

Mae un archwiliad o berfformiad yn dal ar y gweill o fewn yr Ymddiriedolaeth, fel y dengys y tabl isod.

| Adroddiad | Amcan o'r dyddiad cwblhau |
|---|---|
| Rheoli offer clinigol | Adroddiad drafft ym mis Chwefror 2017 |

# Atodiad 2

## Y Ffi Archwilio

Yng Nghynllun Archwilio 2017, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £200,829 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol (ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd) yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

# Atodiad 3

## Risgiau'n gysylltiedig â barnau archwilio

Dangosyn 4: risgiau'n gysylltiedig â barnau archwilio

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2017, nodwyd y risgiau a oedd yn gysylltiedig â barnau archwilio ariannol ar gyfer 2017. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

| Risg archwilio o bwys | Ymateb archwilio a gynigir | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Bod rheolwyr yn diystyru rheolaethau**<br>Ceir risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Oherwydd y gallai'r diystyru hwn fod yn anrhagweladwy, fe'i hystyrir yn risg sylweddol. | Cynigiodd fy nhîm archwilio i:<br>• brofi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. | Rhoesom ystyriaeth i'r ffactorau risg a nodir yn ISA240, ac ni chafwyd hyd i unrhyw dystiolaeth bod rheolwyr yn diystyru rheolaethau wrth gwblhau'r gwaith archwilio a gynigiwyd gennym. |
| **Risgiau archwilio eraill** | **Ymateb archwilio a gynigiwyd** | **Y gwaith a wnaed a'r canlyniad** |
| **Dyletswydd i fantoli'r gyllideb**<br>Ystyrir bod dyletswydd ariannol Ymddiriedolaethau Iechyd i fantoli'r gyllideb drwy gyfuno'r naill flwyddyn â'r nesaf yn ddyletswydd tair blynedd dreigl. Os na chyflawnir y ddyletswydd hon i fantoli'r cyfrifon, gallai'r Archwilydd Cyffredinol roi barn amodol ynghylch rheoleidd-dra neu gyflwyno adroddiad naratif ochr yn ochr â'i farn archwilio.<br>Ar sail ein hadolygiad o adroddiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth a'n trafodaethau ag uwch swyddogion, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y ceir cydbwysedd ariannol ar ddiwedd y flwyddyn. | Cynigiodd fy nhîm archwilio barhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ym mlwyddyn ariannol 2016-17, a hefyd y sefyllfa gronnus yn y tair blynedd hyd 31 Mawrth 2017. | Wrth gwblhau'r gwaith archwilio a gynigiwyd gennym, Ni chawsom hyd i unrhyw faterion a oedd yn codi o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth. |

| Risg archwilio o bwys | Ymateb archwilio a gynigir | Y gwaith a wnaed a'r canlyniad |
|---|---|---|
| **Rhoi cyfrif am esgeulustod clinigol**<br>Nodwyd sawl mater ym mhrosesau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer rhoi cyfrif am ddarpariaethau esgeulustod clinigol ac atebolrwydd setliad strwythuredig yn 2015-16. Arweiniodd y rhain at ddiwygiadau o bwys i'r datganiadau ariannol. | Cynigiodd fy nhîm archwilio y dylid profi'r prosesau cysoni a gynhelir gan Gronfa Risg Cymru, a chysylltu ag archwilwyr y Bwrdd Iechyd i gael sicrwydd ynghylch cywirdeb y ffigurau cyfunol. | Ni chanfuwyd unrhyw faterion a oedd yn codi o brosesau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer cyfrifo darpariaethau esgeulustod clinigol. Canfuom fod y materion a nodwyd yn 2015-16 wedi'u datrys. |
| **Prisio darpariaethau esgeulustod clinigol**<br>Caiff darpariaethau esgeulustod clinigol eu hail-brisio yn flynyddol a'u hymgorffori yng nghyfrifon yr Ymddiriedolaeth. Yn ddiweddar, newidiwyd y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i amcangyfrif atebolrwydd yn y dyfodol am anafiadau personol, sy'n cynyddu'r risg nad yw'r amcangyfrif ar gyfer y ddarpariaeth honno yn gadarn. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• adolygu'r prosesau a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r amcangyfrif hwn;<br>• profi'r amcangyfrifon a wnaed er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gyfradd ddisgownt gywir, a'u bod wedi'u mewnbynnu'n gywir i'r cwanta; a<br>• chysylltu ag archwilwyr y Bwrdd Iechyd i gael sicrwydd ynghylch cadernid y ffigurau cyfunol | Ni chawsom hyd i unrhyw faterion a oedd yn codi o'r newid yn y gyfradd ddisgownt wrth gwblhau'r gwaith archwilio a gynigiwyd gennym. |

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales